



Nodyn Briffio Cyngor Gwynedd



Cynllun Gwacáu Llifogydd Aml-Asiantaethol ar gyfer Fairbourne

Cyfrifoldeb Cyfreithiol / Deddfwriaeth

Deddf Argyfyngau Sifil 2004, Adran 2 (1) (d) - y ddyletswydd i gynnal cynlluniau at y diben o sicrhau, os bydd argyfwng yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd, y gall y person neu'r corff gyflawni ei swyddogaethau i'r graddau sy'n angenrheidiol neu yn ddymunol at ddibenion -

- (i) atal yr argyfwng,
- (ii) lleihau, rheoli neu liniaru ei effeithiau, neu
- (iii) cymryd camau eraill mewn cysylltiad ag ef,

Cefndir

Ym mis Gorffennaf 2019, cymeradwyodd Cyngor Gwynedd y cynllun Gwacáu Llifogydd Aml-asiantaethol ar gyfer Fairbourne. Paratowyd y cynllun i hysbysu ac arwain yr ymatebwyr sydd â rolau allweddol wrth ymateb i lifogydd sylweddol yn Fairbourne sy'n gofyn am wacáu poblogaeth Fairbourne dros dro. Mae'r cynllun hwn yn rhan o Fframwaith Addasu Fairbourne (y cynllun i reoli cymuned Fairbourne tuag at, a thrwy ddigomisiynu dros gyfnod hir). Mae'r cynllun yn berchen i Gyngor Gwynedd ac yn cael ei reoli gan Wasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol - Cynghorau Gogledd Cymru (GCAR-CGC)

Nôd y Cynllun

- *“Diffinio'r ymateb uniongyrchol a chydlynol i ddigwyddiad llifogydd gwirioneddol neu ragweledig a sicrhau bod unrhyw effaith andwyol ar y cyhoedd a'r amgylchedd cyfagos yn cael ei liniaru ”*
- Mae'r cynllun yn cyd-fynd â chynlluniau argyfwng eraill y Cyngor ar gyfer ymateb ac adferiad corfforaethol, a Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd y Cyngor.

Camau nesaf ar gyfer y Cynllun Gwacáu Aml Asiantaethol Llifogydd

- Bydd GCAR-CGC yn rhannu'r cynllun yn y Panel Gweithredol Cynllunio Argyfwng a'i ddsbarthu yn fewnol drwy iGwynedd.
- Bydd GCAR-CGC yn dosbarthu i Asiantaethau eraill drwy Resilience Direct.
- Bydd Penaethiaid Gwasanaeth ynghyd ag Uwch Reolwyr yn cyhoeddi bodolaeth y cynllun yn eu cyfarfodydd perthnasol yng Nghyngor Gwynedd.
- Ymgysylltu ag Asiantaethau eraill i ystyried datblygu ymarferiad i ddilysu'r cynllun.
- Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy (YGC) i godi ymwybyddiaeth y cynllun o fewn gymuned Fairbourne.
- Bydd NWC-REPS yn adolygu'r cynllun yn dilyn unrhyw ymarferion, digwyddiadau neu unrhyw newidiadau gweithredol a chorfforaethol a allai effeithio ar drefniadau'r cynllun.